# Dogfen Polisi Priodol - Prosesu Diogelwch Data CLlLC

**Diben**

Mae'r Ddogfen Polisi Priodol hon yn egluro sut mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn prosesu data personol categori arbennig a data trosedd yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae'n nodi'r mesurau diogelu a gweithdrefnau mewn lle, lle mae CLlLC yn dibynnu ar Erthyglau 9 a 10 Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a'r amodau perthnasol yn Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018, yn unol ag Atodlen 1, Rhan 4.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Pholisi Diogelu Data CLlLC, hysbysiadau preifatrwydd a gweithdrefnau gweithredol perthnasol.

**Cwmpas**

Mae'r Ddogfen Polisi Priodol hwn yn gymwys i brosesu holl ddata personol categori arbennig a throsedd a gyflawnir gan CLlLC a'i broseswyr dan gontract.

Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, brosesu a gyflawnir ar gyfer:

- llywodraethu a chefnogi polisi;
- datblygu'r gweithlu, hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghori;
- cefnogaeth i aelodau;
- Rheoli'r gweithlu ac AD;
- llywodraethu gwybodaeth;
- rheoli digwyddiadau;
- gweithio mewn partneriaeth; a
- rhaglenni cydweithredol sy'n cynnwys awdurdodau lleol a sefydliadau partner.

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English."

**Cyfreithlondeb - Erthyglau 6, 9 a 10 Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data**

Mae CLlLC yn nodi a chofnodi sail gyfreithlon briodol o dan Erthygl 6 Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data ar gyfer holl weithgareddau prosesu, a all gynnwys tasg gyhoeddus, rhwymedigaeth gyfreithiol, contract, budd allweddol neu fudd dilys, yn dibynnu ar y cyd-destun.

Os yw prosesu'n cynnwys data personol categori arbennig, mae CLlLC yn defnyddio un neu fwy o amodau o dan Erthygl 9(2) Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, gan gynnwys, lle bo'n briodol:

- cydsyniad penodol (Erthygl 9(2)(a);
- cyflogaeth, nawdd cymdeithasol a chyfraith amddiffyn cymdeithasol;
- budd sylweddol i'r cyhoedd (Erthygl 9(2)(g)); a
- dibenion archifo, ymchwil ac ystadegol (Erthygl 9(2)(j)).

Lle prosesir data trosedd, mae CLlLC yn sicrhau cydymffurfiaeth gydag Erthygl 10 Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Diogelu Data 2018, gan gynnwys defnyddio mesurau diogelwch priodol.

**Dibyniaeth ar Amodau Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018**

Pan fo angen, mae CLlLC yn dibynnu ar yr amodau priodol a nodir yn Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018 ar gyfer prosesu data categori arbennig a throsedd.

Mae CLlLC yn cynnal y Ddogfen Polisi Priodol hon ac Erthygl 30 Cofnod o Weithgareddau Prosesu i fodloni gofynion atebolrwydd a chofnodi Deddf Diogelu Data 2018.

**Atodlen 1 - Rhan 1: Cyflogaeth, Diogelwch Cymdeithasol ac Iechyd**

Gall brosesu gynnwys:

- Gweinyddu AD a rheoli achosi;
- iechyd a lles galwedigaethol;
- diogelwch staff ac adrodd am ddigwyddiadau;
- gwasanaethau cefnogi'r gweithlu; a
- swyddogaethau statudol yn ymwneud â chyflogaeth.

**Atodlen 1 - Rhan 2: Budd Sylweddol i'r Cyhoedd**

Gall brosesu gynnwys:

- atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon;
- cydraddoldeb cyfle a thriniaeth;
- diogelu a chefnogi swyddogaethau;
- atal twyll a rheolyddion ariannol;

- darpariaeth gwasanaethau cefnogi neu gwnsela; a
- datgeliadau cyfreithlon a chymesur i aelodau etholedig neu bartneriaid.

**Atodlen 1 - Rhan 3: Euogfarnau Troseddol ac ati**

Mae CLlLC yn prosesu data trosedd **pan fydd yn gwbl ofynnol yn unig**, yn unol â dibenion statudol, ac mae'n defnyddio mesurau diogelu priodol i ddiogelu hawliau a rhyddid unigolion.

**Gweithdrefnau ar gyfer Sicrhau Cydymffurfiad ag Egwyddorion Erthygl 5 Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data**

Atebolrwydd
Mae'r mesurau diogelu a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu i fodloni gofynion Atodlen 1, Rhan 4 Deddf Diogelu Data 2018.

Mae CLlLC yn defnyddio diogelu data, o'r cychwyn ac fel anghenraid ar draws ei weithgareddau prosesu, ac yn cynnal Erthygl 30 Cofnod o Weithgareddau Prosesu, ac yn cyflawni Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data pan fydd angen.

Mae CLlLC yn penodi Swyddog Diogelu Data, yn defnyddio cytundebau rhannu data a chontractau i lywodraethu prosesu gan drydydd parti, yn darparu hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu data, ac yn cyflawni sicrwydd parhaus, gweithgareddau archwilio ac adolygu.

**Cydymffurfio ag Egwyddorion Erthygl 5 Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data**

- **Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder**
  Prosesir data personol pan dydd sail gyfreithiol ddilys yn gymwys, ac mae unigolion yn derbyn gwybodaeth breifatrwydd clir a hygyrch trwy **hysbysebion preifatrwydd** priodol.

- **Cyfyngiad ar ddiben**
  Cesglir data personol ar gyfer dibenion penodol, clir a chyfreithlon yn unig ac ni phrosesir yn anghydnaws gyda'r dibenion hynny.

- **Lleihau data**
  Dim ond data personol sy'n ddigonol, perthnasol ac angenrheidiol y prosesir.

- **Cywirdeb**
  Cymerir camau rhesymol i sicrhau bod data personol yn gywir a chyfredol.

- **Cyfyngiadau ar gadw**
  Cedwir data personol cyhyd â bod angen yn unig, ac yn unol ag **Atodlen Cadw a Gwaredu Cofnodion** CLlLC.

- **Uniondeb a chyfrinachedd**
  Defnyddir mesurau sefydliadol a thechnegol priodol, gan gynnwys rheolyddion mynediad, amgryptiad lle bo'n briodol, cofnodi a rheoli digwyddiad.

**Polisïau Cadw a Dileu**

Cedwir a gwaredir data personol yn ddiogel, yn unol ag Atodlen Cadw a Gwaredu Cofnodion CLlLC, gan ystyried natur, sensitifrwydd a diben y data.

**DPIA a Phrosesu Risg Uchel**

Mae CLlLC yn cyflawni Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data cyn cyflwyno neu newid prosesau, sy'n debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid unigolion.

**Hawliau Gwrthrych y Data**

Mae CLlLC yn galluogi unigolion i ymarfer eu hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, gan gynnwys mynediad, cywiro, dileu, cyfyngu, gwrthwynebu a symud data, yn destun eithriadau cyfreithiol cymwys.

**Mesurau Diogelwch**

Mae CLlLC yn cynnal rheolyddion diogelwch cadarn, gan gynnwys rheoli mynediad, storfa ddiogel, amgryptiad lle bo'n briodol, monitro, adrodd am ddigwyddiadau a gweithgareddau sicrwydd annibynnol.

**Adolygu a Chadw'r Ddogfen Polisi Priodol Hon**

Cedwir y Ddogfen Polisi Priodol hon o dan adolygiad rheolaidd ac fe gaiff ei diweddaru os fydd gweithgareddau prosesu neu ofynion cyfreithiol yn newid. Fe'i cedwir am o leiaf chwe mis ar ôl i'r prosesu perthnasol ddod i ben, ac yn unol ag Atodlen 1, Rhan 4 Deddf Diogelu Data 2018.